# THOMAS, JOHN (1730 - 1804?), gweinidog gyda'r Annibynwyr, ac emynydd;

**Enw:** John Thomas
**Dyddiad geni:** 1730
**Dyddiad marw:** 1804?
**Priod:** Elizabeth Thomas (née Jones)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Annibynwyr, ac emynydd;
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth
**Awdur:** John Dyfnallt Owen

Ganwyd yn 1730 (bedyddiwyd 25 Ebrill) yn y Col ym mhlwyf Myddfai (Caerfyrddin). Hanoedd o deulu didoriad, a thaflwyd ef ar drugaredd ei geraint yn blentyn. Cafodd ysbeidiau byr o ysgol a darllenai Gymraeg a Saesneg. Bu'n was bach mewn ffermydd yn yr ardal, a bwriai ei oriau hamdden yn darllen y *Beibl*, *Cannwyll y Cymry*, a *Taith y Pererin*. Yr oedd o dymheredd grefyddol er yn ifanc, a phan glywodd Howel Harris yn pregethu yn nhy Sieffre Dafydd, Llanddeusant (1745), ysgytiwyd ei holl anianawd ysbrydol. Yn 15 oed aeth yn was yn nhy Griffith Jones yn Llanddowror, a bu yno am ddwy flynedd; ond ni chefnogai Griffith Jones ei awydd at bregethu. Eithr rhoes Howel Harris ysgol yn rhad iddo yn Nhrefeca; yno ymroes i fynychu seiadau a chyfarfodydd crefyddol, ac i gynghori. Bu am nifer o flynyddoedd yn athro yn ysgolion cylchynol Griffith Jones yn siroedd y Deheudir, a chynghorai, dan gryn erledigaeth.

Derbyniwyd ef yn gynghorwr rheolaidd mewn sasiwn Rowlandaidd yn 1752; ond hoffai drefn eglwysig yr Annibynwyr, a chyda chydsyniad Rowland ymunodd â hwy. Yn 1761 llwyddodd Joseph Simmons ac eraill i gael mynediad iddo i academi'r Fenni. Arferodd David Jardine gryn ddoethineb tuag ato, ond pregethu a wnaeth tra fu yno, yn hytrach na dysgu.

Urddwyd ef yn weinidog Rhaeadr Gwy, Caebach, a'r Garn, 23 Ebrill 1767, gan Edmund Jones, Isaac Price, a Richard Tibbott - tri Annibynnwr 'Methodistaidd.' Ar waethaf haelioni Thomas Jones, Pencerrig (tad yr arlunydd Thomas Jones), tymhestlog fu ei hynt weinidogaethol; ac ar hyd yr amser teithiai i bobman (i Wynedd, a hyd yn oed i Lundain) i bregethu; yn wir, ni phallodd ei anian Fethodistaidd erioed, a phregethai yn Llangeitho, yn Nhrefeca, ac yng nghapelau'r arglwyddes Huntingdon mor bell â Brighton. Gadawodd sir Faesyfed yn 1794 a threiglodd i Langathen, i Abergwili, ac i Gaerfyrddin, lle y bu farw - ni wyddys pa bryd, ond tystia yn *Rhad Ras* ei fod yn fyw yng ngaeaf 1803-4; myn rhai iddo fyw hyd 1810 neu 1811. Priododd Miss Elizabeth Jones o Ddyffryn Cothi, plwyf Llanfynydd.

Ei *Rhad Ras* (na chyhoeddwyd hyd 1810) yw'r hunangofiant Cymraeg cyntaf, ond odid; ac efallai mai hwn, ac emynau ' Pantycelyn,' yw lleferydd uchaf y diwygiad. Ond yr oedd John Thomas yntau'n emynydd nodedig. Cyhoeddodd *Caniadau Sion* [ *sic* ] yn chwech o rifynnau rhwng 1758 a 1786, a chasglwyd hwy'n un gyfrol yn 1788, a chynnwys hwn amryw o'n hemynau mwyaf adnabyddus. Canodd farwnadau i Howel Harris, Dafydd Jones o Gaeo, a Peter Williams. Yr oedd hefyd yn gyfieithydd diwyd - yn enwedig, cyfieithodd amryw draethodau gan Bunyan.

## Awdur

**Y Parchedig John Dyfnallt Owen**, (1873 - 1956)

## Ffynonellau


*Rhad Ras* (1810, 1949)

*Minutes of Cong. Fund Board*, 2 Tachwedd 1772, 5 Ebrill 1779, 6 Hydref 1800

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 535

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 594

*Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893), 356-64

*A History of Carmarthenshire*, ii, 201, 261, 421

J. Thickens, *Emynau a'u Hawduriaid* (1945)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calfinaidd*, Mawrth 1967


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733665

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu